OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1243

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021

**Newid mewn amgylchiadau**

**18.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Ionawr 2022—

(a) sy'n peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru,

(b) nad oes cais wedi ei wneud am hysbysiad CDU nac hysbysiad Dim CDU ar ei gyfer, ac

(c) y mae'r hen gyfraith yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(2) Ar y dyddiad y mae'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol honno—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig" yw bod enw'r disgybl wedi ei ddileu o gofrestr dderbyn yr ysgol yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**1**) ond nid yw'n cynnwys disgybl sy'n peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig o ganlyniad i un neu ragor o'r canlynol—

(i) cyrraedd diwedd trydydd tymor y flwyddyn olaf y mae'r ysgol yn darparu addysg yn gyffredinol;

(ii) bod yr ysgol yn cael ei therfynu o ganlyniad i weithredu cynnig a wneir o dan adran 43 (cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd), adran 44 (cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig cymunedol), adran 59 (gwneud a chyhoeddi cynigion gan Weinidogion Cymru), adran 68 (cynigion gan Weinidogion Cymru) neu adran 80 (hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**2**);

(iii) bod yr ysgol yn cael ei therfynu o ganlyniad i gyfarwyddyd a wneir o dan adran 16 (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau) neu adran 81 (cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol yn cael ei therfynu) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

(iv) bod yr uned cyfeirio disgyblion yn cael ei chau yn barhaol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 mewn grym ar y dyddiad gwneud

(**1**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).
(**2**) 2013 dccc 1.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 09/11/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.